



CYLCHLYTHYR 7

Haf 2009

E-bost: coetirmynydd@aol.com
www.coetirmynydd.co.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfodydd eraill Coetir Mynydd a gynhaliwyd dros y Gaeaf ac yn gosod rhaglen o weithgareddau ar gyfer Haf a Hydref 2009. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf llwyddom i sicrhau rhywfaint o nawdd gan CCGC a derbyniwyd gwahoddiad i weithio efo Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar Prosiect Pathfinder i archwilio cysylltiad y gymuned efo'r goedwigaeth. Dim ond chwe grŵp ar draws Cymru sydd wedi cael eu dethol gan y Comisiwn Coedwigaeth fel 'Pathfinders', sy'n golygu ei fod anrhydedd ac hefyd yn gyfrifoldeb gan y bydd y dull y cynhaliwn y prosiect yn dylanwadu ar gyfleoedd a gaiff eu cynnig i gymunedau eraill ledled Cymru.

Prosiect Bywyd Gwyllt

Dan ni wedi medru sicrhau grant fechan (£3,500) gan CCGC tuag at raglen o ddigwyddiadau bywyd gwyllt. Mae gan y digwyddiadau hyn y swyddogaeth ymarferol o gofnodi bywyd gwyllt y Mynydd yn ogystal â bod fel ffocws i ddigwyddiadau cymdeithasol lle mae croeso i bawb – dim ots os na fedrwrch ddweud y gwahaniaeth rhwng llyffant a broga, dewch draw i ddarganfod mwy am fywyd gwyllt y pentref. Trefnwyd y digwyddiadau canlynol – cysylltwch â Bryan Dickinson 602124 neu e-bostiwch CoetirMynydd@aol.com os hoffech ragor o wybodaeth neu gynnig digwyddiadau eraill.

Gwallgof Gyfri'r Gwcw – 21ain o Fai cafwyd cymorth llawer o blant Ysgol Bodfeurig i gyfri'r cogau i'w clywed o gwmpas Mynydd Llandygai. Clywyd o leiaf tair cwch o gwmpas y pentref.

Planhigion estron – Sadwrn Mai 23ain – Cyfarfod am 11 y bore yn Twillukstump, Lôn y Grug. Dysgwch am rai o'r problemau sy'n cael eu hachosi gan Glychau'r Gog Sbaenaidd a rhywogaethau planhigol estron eraill a gwneud gwaith ymarferol.

Tacluso'r Coetir a Gwaith ymarferol – Dydd Sul 31ain o Fai. Cyfarfod am 11 y bore yn Ynys Uchaf. Mae amryw o dasgau ymarferol sydd angen eu gwneud ym Mharc yr Ocar: codi sbwriel cyffredinol, trwsio wal gerrig ac ati. Dewch â dillad pwrpasol a phicnic i ginio.

Sesiwn arolygu bywyd gwyllt – gyda'r nos ganol wythnos ym Mehefin (dyddiad i'w gyhoeddi) Dysgwch pa rywogaethau i chwilio amdanynt a chynorthwywch i greu 'map bywyd gwyllt' ar gyfer y pentref.

Picnic Adar Coetir – Dydd Sadwrn 6ed o Fehefin. Cyfarfod am 11 y bore yn Ynys Uchaf. Cyfle i wyllo,

gwrando ar ac adnabod rhai o'n hadar coetir. Dewch â dillad addas, sbienddrych a phicnic i ginio.

Taith gerdded gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru – Dydd Sadwrn 20fed o Fehefin. Cyfarfod am 10 y bore yn Felin Fawr. Taith gerdded anffurfiol i fwynhau ac adnabod pa bynnag blanhigion ac anifeiliaid gwyllt y down ar eu traws ym Mynydd Llandygai ac ardal Bryn Eglwys.

Arolwg Pyllau Gardd – Dyddiad i'w drefnu. Arolwg o Was y Neidr a mapio pyllau gardd ym Mynydd Llandygai.

Teithiau Cerdded Ystlumod gyda'r nos – Gorffennaf ac Awst. Dechrau am 9.30 yr hwyr. Mynd am dro araf deg o gwmpas y pentref yn hwyr gyda'r nos i wrando ac edrych ar ystlumod y pentref. Dewch â dillad cynnes, tortsh a rhywbeth i atal gwybed.

Mae digwyddiadau nes ymlaen yn y flwyddyn yn cynnwys: modrwyo adar, adeiladu a lleoli blychau adar ac ystlumod, arolwg mwsoglau a chyrch ffynghau.

Ymchwil Adar Gardd

Gan weithio efo Dr Rachel Taylor dan ni'n datblygu cynnig am astudiaeth o ymddygiad bwydo a chenhedlu adar gardd. Gobeithiwn y caiff ei noddi gan Beacon for Wales (cefnogaeth grant i bartneriaethau cymuned a phrifysgol). Os hoffech fod yn rhan o'r prosiect hwn ac yn barod i gofnodi'r adar modrwyog sy'n ymweld â'ch gardd, cysylltwch â Bryan er mwyn rhoi eich enw ar restr i gael rhagor o wybodaeth.

Parc yr Ynys

Mae'r cynllun rheoli a grant cysylltiedig Gwell Coetiroedd i Gymru gan y Comisiwn Coedwigaeth i Barc yr Ynys yn dod i ben yn niwedd 2009. Mae'r Bwrdd wedi penodi Simon Maskrey i weithredu fel Asiant y Coetir i adolygu'r cynllun rheoli. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn awyddus i'n cynorthwyo efo hyn fel rhan o'r Prosiect Pathfinder er mwyn ymchwilio i gamau a chostau cynllunio rheolaeth coetir gan grŵp cymunedol. Yn ystod y chwe mis nesaf bydd Simon a hwylusydd, yn y lle cyntaf, yn adolygu gweithrediad ac effaith y cynllun blaenorol ac wedyn yn penderfynu beth sydd ei angen i gynnal y coetiroedd dros y pum mlynedd nesaf. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y coedwigoedd dros y pum mlynedd diwethaf neu gyda syniadau ynglŷn â'r hyn sydd ei

angen nesaf yna cysylltwch â Simon Maskrey 602254
simonmaskrey@yahoo.co.uk os gwelwch yn dda.

Y Goedwigaeth ~ Parc y Bwlch

Yn ystod yr Hydref fe wnaeth grŵp o bobl ifanc arolwg holiadur drwy'r pentref i wybod barn y trigolion am y Goedwigaeth ym Mharc y Bwlch. Mae'r adroddiad o'u darganfyddiadau ynghlwm sy'n dangos yn glir bod y mwyafrif yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio'r goedwig. Dyma'r adroddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru sy'n ennyn llawer o ddiddordeb gan bobl sydd â diddordeb mewn gwaith ieuencid a choedwigaeth. Go dda! Diolch yn fawr iawn i'r bobl ifanc i gyd a hefyd i Martin Daws a Kirsten Hails am gynorthwyo.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cymeryd canlyniadau'r ymgynghoriad o ddirif ac yn dymuno llunio rheolaeth dyfodol Parc y Bwlch mewn ffordd fydd yn ateb anghenion y bobl trwy Brosiect Pathfinder. Sut bynnag, nid yw hyn yn bosib ar sail ymgynghoriad ym Mynydd Llandygai yn unig felly bwriedwn wneud cais i GwirVol am ail grant er mwyn cynnal ymgynghoriadau yn Nhregarth a Rhiwlas. Bydd y cais yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd Mehefin ac os y bydd yn llwyddiannus, caiff y prosiectau ymgynghori eu lansio yn Nhregarth a Rhiwlas ym Medi 2009 i gael eu cwblhau erbyn Ionawr 2010.

Yn y cyfamser mae'r Comisiwn Coedwigaeth am noddi ymgynghorydd i edrych ar y dewisiadau 'silvicultural' (rheolaeth coed a choedwig) ar gyfer Parc y Bwlch.

Unwaith y bydd yr ymgynghoriadau a'r adroddiadau 'silviculture' wedi eu cwblhau, bwriedir cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus i benderfynu sut i reoli a datblygu'r goedwig dros y 10 mlynedd nesaf ac wedi hynny.

Moely Ci

John Harold - Swyddog Cadwraeth - Canolfan Amgylcheddol Moelyci

Bydd llawer ohonoch wedi sylwi fod gwaith wedi dechrau ar gam nesaf y dasg o ddod â chynefinoedd rhostir mynydd Moelyci i gyflwr ffafriol. Rydym yn falch fod cefnogaeth Dŵr Cymru wedi ein galluogi i alw ar gontractwr sy'n arbenigo mewn cadwraeth i ymgymryd â'r gwaith o dorri'r llystyfiant ar y rhostir ble mae eithin mân, (*Ulex gallii*), wedi bod yn cymryd drosodd, yn bennaf ar lethrau deheuol a gorllewinol y mynydd. I reoli'r eithin mân, a'i rwystro rhag trechu'r grug a'r llus, mae'n rhaid i ni dorri'r llystyfiant i roi cyfle i'r grug ddal yr eithin, ac yna defnyddio'r tir sydd wedi'i dorri ar gyfer pori.

Rydym yn gweithio â phorwyr lleol i sicrhau fod gennym dda byw sy'n addas ar gyfer y mynydd - mae rhai o ferlod y Carneddau bellach ar y safle - anifeiliaid gwydn sy'n ffynnu yn yr amodau hyn.

Mae Moelyci'n cyd-weithio'n agos â staff lleol a swyddog maes Cyngor Cefn Gwlad Cymru i sicrhau

adferiad parhaus y rhostir ucheldirol arbennig hwn yn dilyn tân trychinebus 2003. Mae dynodiad Moelyci fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Gadwraeth Arbennig yn cydnabod pwysigrwydd cynefinoedd a bywyd gwyllt y mynydd.

Yn enghraifft dda o'i fath, mae'n rhostir ni'n cynnal rhywogaethau carismatig o fywyd gwyllt: mae'r rugiar goch, yr ehedydd, clochdar y garreg, crec yr eithin, pibydd y waun, y llinos, a'r gog yn bridio ar y mynydd. Y rhywogaeth brinnaf a geir ar y mynydd yw'r gwyfyn Ton Gwynedd, (*Idaea contiguaris brittaniae*). Mae'r gwyfyn bychan swynol hwn yn endemig i rhostir ucheldirol yng ngogledd orllewin Cymru, ble y ceir cofnod ohono mewn rhyw ddwsin o safleoedd yn unig - mynydd Moelyci yw un o gadarnleoedd y rhywogaeth hon.

Bwriad ein rhaglen reoli yw cynnal yr holl rywogaethau hyn drwy greu amodau addas ar gyfer rhostir cytbwys sy'n cynnwys grug, grug y mêl, llus a rhywogaethau nodweddiadol eraill, ac iddo strwythur o oedrannau gwahanol. Bydd y clytwaith o llystyfiant byr a thal hefyd yn lleihau'r posibilrwydd y bydd tanau gwyllt trychinebus yn digwydd eto.

Mae'r mynydd yn werthfawr i bobl leol, ac fe'i defnyddir ar gyfer cerdded, rhedeg, cael picnic, pigo llus, gwyllo adar ac amrywiol weithgareddau tawel eraill. Gobeithiwn y bydd gwaith ein staff a'n gwirfoddolwyr, gyda chefnogaeth ein partneriaid, yn sicrhau fod y Mynydd yn parhau i fod yn hafan i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt a phobl.

Penwythnos Coedwriaeth

Gwersyll gwyllt dros nos yn y goedwig i bobl ifanc yw hwn, wedi ei noddi gan Forest Education Initiative a Camre Cymru. Cafodd ei drefnu a'i ganslo ddwywaith oherwydd salwch a thywydd echrydus. Mae lle i 15 ar y cwrs penwythnos yma ar gyfer pobl ifanc Mynydd. Gwnaed trefniant dros dro i gynnal y penwythnos ar un ai'r 11-12 o Orffennaf neu'r 18-19 o Orffennaf ac mae lle i saith yn dal i fod ar gael. Wneith pawb sydd eisiau mynd adael i Martin Daws wybod pa benwythnos fyddai orau. Mae ffurflenni cais ar gael gan Martin (ffôn 605470).

Micro-hydro

Dan ni ddim wedi anghofio am hyn! Mae'n anodd dod o hyd i nawdd ar gyfer yr astudiaeth ddichonolrwydd o'r tri opsiwn a ddynodwyd gan Bryn a hwn ydy'r cam nesaf yn y broses. Ar hyn o bryd dan ni'n mynd at First Hydro, Amgylchedd Cymru, Cronfa Cynaliadwyedd Gwynedd a CAE. Gobeithio y bydd un neu fwy o'r rhain yn rhoi'r hyn sydd ei angen fel y gallwn ddod allan o'r cyfyngder presennol.

Cysylltiadau:

Simon Maskrey – Cynllun Rheoli Parc yr Ynys
Bryan Dickinson – Arolwg a Phrosiect Bywyd Gwyllt
Martin Daws – Digwyddiadau Ieuencid
Jenny Wong – Ceisiadau am grantiau